



Papur Gwybodaeth

Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru – 2018/19

Ar 19 Rhagfyr 2017 cyhoeddodd Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, gyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19. Cafodd y gyllideb ei phasio gan y Cynulliad ar 16 Ionawr 2018.

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yw £15.3 biliwn, cynnydd o £250 miliwn ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r gyllideb yn nodi'n glir gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn y meysydd o gyfrifoldeb a ddatganolwyd, yn cynnwys iechyd, tai ac addysg. Dyma'r gyllideb gyntaf lle gall Llywodraeth Cymru hefyd roi ystyriaeth i'r ddau faes newydd a ddatganolwyd - trethiant a benthyca, gan olygu y gall Llywodraeth Cymru sicrhau refeniw o'r rhain i ariannu gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn uniongyrchol.

Yn dilyn cytundeb gyda Llafur Cymru, cytunodd Plaid Cymru i gefnogi cynlluniau Llafur ar gyfer y gyllideb ar yr amod y caiff nifer o'u polisiâu eu hunain eu hariannu, yn cynnwys na fydd unrhyw doriadau i'r gyllideb Cefnogi Pobl.

Fel rhan o ymrwymiad Cartrefi Cymunedol Cymru i'n haelodau, bydd y papur gwybodaeth hwn yn crynhoi'r wybodaeth a roddwyd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, yn cynnwys ystadegau allweddol a'n rhagolygon am beth fydd effaith posibl y gwahanol gyhoeddiadau ar sector tai Cymru. Amlygir y mesurau allweddol yn y gyllideb islaw cyn y rhoddir manylion pellach yn ddiweddarach ar yr agweddau hynny fydd yn cael effaith uniongyrchol ar y sector tai.

Prif Benawdau:

- £230m ychwanegol yn 2018–19 a £220m yn 2019-20 ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ygn Nghymru
- Diogelu cyllid gofal cymdeithasol ac addysg
- Dim toriadau i'r grant Cefnogi Pobl: caiff £10m ychwanegol ei ddyrannu bob blwyddyn i gynnal lefelau 2017-18
- Buddsoddi £70m dros ddwy flynedd am y cynnig gofal plant i rieni plant 3 a 4 oed sydd mewn gwaith sy'n cynnig 30 awr o ofal plant am ddim a gyllidir gan y Llywodraeth
- £10m ychwanegol bob blwyddyn i fynd i'r afael â diweithdra
- Bydd penderfyniad yr Ysgrifennydd Cyllid i gyflwyno Treth Trafodioadau Tir yn lle'r Dreth Stamp yn mynd yn ei flaen, ond gyda newidiadau i'r cynigion dechreuol yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddileu treth stamp ar gyfer prynwyr tro cyntaf.



Newidiadau Allweddol i'r Gyllideb

Llinell Cyllideb Cyfalaf	Cyllid 2017/18	Cyllid 2018/19	% Newid
Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai fforddiadwy	£103.7m	£221m	+113%
Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai marchnad	£103.3m	£88.7m	-14%
Adfywio	£17.5m	£21.9m	+25%

Llinell Cyllideb Refeniw	Cyllid 2017/18	Cyllid 2018/19	% Newid
Cefnogi Pobl	£124.5m	£124.5m	+/- 0%
Atal Digartrefedd	£5.9m	£9.9m	+67.7%

Manylion ar gyhoeddiadau cyllid

1. Tai Fforddiadwy

Mae cyllideb 2018/19 yn ymrwymo £340m ychwanegol o gyfalaf i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'w targed o 20,000 o gartrefi, gan weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd y Gweinidog yn cydnabod pwysigrwydd tai da i iechyd a llesiant cyffredinol, sy'n cysylltu â gweledigaeth Gorwelion Tai CHC. Bydd y cyllid hwn yn canolbwyntio ar ddarparu tai cymdeithasol, yn ogystal â chynyddu'r gyfran o gartrefi cost-isel sydd ar gael i'w prynu.

Cyllideb 2018/19 yw ail flwyddyn rhaglen Grant Cyllid Tai 2 sydd, yn ogystal â darparu cyllid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn rhoi cefnogaeth i awdurdodau lleol i gyflawni eu cynigion tai. Nod y cynllun yw hybu buddsoddiad yn y sector tai gan £250m, gan helpu i gyflawni ymrwymiad y llywodraeth i adeiladu 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn diwedd tymor hwn y Cynulliad. Bydd y gyllideb yma'n cynyddu Grant Cyllid Tai 2 gan £3.7 miliwn yn 2018/19 a £1.7 miliwn pellach yn 2019/20.



Effaith:

Mae cymdeithasau tai yn hanfodol i gyflawni ymrwymiad y Cynulliad o 20,000 o dai fforddiadwy yn ystod tymor hwn y Cynulliad, felly bydd y cynnydd hwn mewn cyllid yn hanfodol wrth sicrhau fod hyn yn digwydd. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn croesawu'r cyllid a bydd yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn sicrhau fod yr amgylchedd cywir gennym er mwyn cyflawni'r targed. Byddai hyn yn cynnwys adeiladu, caffael tir ac adfywio.

Mae'r gyllideb yn gwneud sawl cydnabyddiaeth am arwyddocâd sicrhau cyflenwi datrysiadau tai addas ar gyfer anghenion amrywiol cymunedau ac unigolion ar draws Cymru. Mae'n cydnabod pwysigrwydd darparu sicrwydd tai fforddiadwy er mwyn cefnogi unigolion bregus i aros yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser a pharhau i chwarae rhan yn eu cymunedau. Mae CHC yn cydnabod fod hyn yn rhan hanfodol o rôl cymdeithasau tai a bydd yn parhau i ategu hyn wrth Aelodau Cynulliad i sicrhau eu bod yn cefnogi'r cynlluniau datblygu hyn a chymdeithasau tai o fewn eu hetholaethau.

2. Rhaglen Cefnogi Pobl

Yn dilyn cytundeb rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru, cafodd cyllid Cefnogi Pobl ei ddiogelu ar gyfer cyllideb 2018/2019. Fodd bynnag, yn y flwyddyn ddilynol (2019/20), cynigiwyd ei uno gyda nifer o grantiau eraill a gaiff eu talu i awdurdodau lleol i greu un grant (y grant newydd Ymyriad Cynnar, Ataliaeth a Chymorth). Mae hyn yn dilyn llythyr i awdurdodau lleol yn 2017 yn cyhoeddi cynllun braenaru hyblygrwydd cyllid, fydd yn galluogi saith awdurdod lleol i dreialu hyblygrwydd ar draws nifer o ffrydiau cyllid yn cynnwys cefnogi Pobl, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y byddai'r grant sengl hwn yn codi cyfyngiadau ac yn galluogi penderfynu cronfeydd yn lleol yn hytrach na chyllido rhaglenni cenedlaethol.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru wedi ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i godi ein pryderon am gynigion i ddileu neilltuo arian o Cefnogi Pobl ac uno'r gronfa gyda chronfeydd eraill heb fod yn gysylltiedig â thai. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar eu penderfyniadau ar hyblygrwydd cyllid a dyfodol Cefnogi Pobl.

Effaith:

Er ein bod yn falch fod cyllid Cefnogi Pobl yn cael ei gadw ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, mae pryderon na chaiff cyllid ei ddiogelu yn dilyn hyn gan y caiff ei uno gyda grantiau eraill. Mae hyn yn gonsyrn sylweddol i CHC gan fod llawer o gymdeithasau tai yn dibynnu ar y cyllid i reoli rhaglenni sy'n profi'n llwyddiannus iawn. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer aelodau a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau Cefnogi Pobl.



3. Digartrefedd

Mae'r gyllideb yn cyhoeddi dyraniad o £10 miliwn ychwanegol i dargedu digartrefedd, a bydd £6 miliwn o hynny ar gael drwy Grant Cymorth Refeniw yn 2018/19 a 2019/20. Dynodwyd y maes hwn drwy gynllun Ffyniant i Bawb y Llywodraeth a bydd yn targedu mesurau ataliol. Fodd bynnag, mae pryderon am hyn oherwydd y cynnig i uno cyllid atal digartrefedd i'r grant newydd Ymyriad Cynnar, Ataliaeth a Chymorth, gan olygu y bydd monitro gwariant a deilliannau hyd yn oed yn anos.

Mae'r buddsoddiad o £340 miliwn mewn tai fforddiadwy hefyd yn anelu i dargedu problem digartrefedd gan y cydnabyddir fod tai ansicr ac anaddas yn gwaethygu'r broblem yn sylweddol ac y gall wthio pobl fregus ar y strydoedd.

Effaith:

Mae digartrefedd ar draws Cymru yn broblem gynyddol, felly mae CHC yn croesawu'r cyllid ychwanegol hwn ynghyd â'r gydnabyddiaeth fod angen buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau ataliol ynghyd â gwasanaethau ymatebol. Pwysleisir bod cael y gwasanaethau hyn i gydweithio wrth fynd i'r afael â phroblem yn sicrhau bod pobl ddigartref yn mynd yn ôl i lety diogel a sicr.

4. Adfywio

Dyrannwyd £14.9 miliwn i'r gyllideb adfywio, i'w weithredu dros y tair blynedd nesaf; £6 miliwn yn 2018/19, £4.5m yn 2019/20 a £4.4m yn 2020/21. Bydd hyn yn cefnogi adfywio cyfleusterau cymunedol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryf ledled Cymru.

Agwedd arall o adfywio yw sicrhau fod cartrefi'n cyrraedd y targedau ar gyfer Safonau Ansawdd Tai Cymru. Y targed yw i bob cartref yng Nghymru fod ar y safon hon erbyn 2020, felly caiff cyflawni a chynnal y safonau hynny ei gefnogi gan ddyraniad cyllideb o £108 miliwn.

5. Gofal Cymdeithasol

Er gostyngiad pellach yn y gyllideb gofal cymdeithasol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i roi blaenoriaeth a diogelu gwasanaethau rheng flaen, yn neilltuoel ysgolion a gofal cymdeithasol yn y gyllideb refeniw dwy flynedd. Maent wedi ymrwmo i fuddsoddi £30 miliwn mewn grantiau penodol ar ofal cymdeithasol, a ddaw o Brif Grŵp Gwariant Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Mae'r setliad llywodraeth leol yn cynnwys cyllid ar gyfer cyllidebau gofal cymdeithasol i gynnal cyfran dybiedig Llywodraeth Cymru o wariant craidd ar lefelau 2017-18, yn 2018-19 a hefyd 2019-20. Mae hyn yn gyfwerth â £42m yn 2018-19, gan gynyddu i £73m yn 2019-20.



Mae cynlluniau i gydlynu rhaglenni cyfalaf tai, iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn targedu'r meysydd sy'n eu cysylltu, er enghraifft mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod fod angen sylweddol am lety blaengar a fforddiadwy sy'n darparu gofal hygyrch ar gyfer grwpiau bregus. Maent wedi ymrwymo i fuddsoddi £15 miliwn ychwanegol dros ddwy flynedd, yn cychwyn gyda £5 miliwn yn 2019/20 yna £10 miliwn yn 2020/21 mewn rhaglenni cyfalaf tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

Effaith:

Mae'r cysylltiad rhwng tai a gofal cymdeithasol yn ddigamsyniol, felly mae CHC yn croesawu unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer y gyllideb gofal cymdeithasol, yn neilltuol ynghyd â'r gydnabyddiaeth i ofal cymdeithasol fod yn llwyddiannus fod yn rhaid iddo weithio mewn cysylltiad â llety blaengar, gan helpu pobl i aros yn eu cartrefi ac osgoi gorfod mynd i ysbyty.

Bydd CHC yn parhau i weithio gyda chymdeithasau tai sy'n cefnogi llety â chymorth, gan amlygu eu pwysigrwydd yn y sector gofal cymdeithasol.

5. Cronfa Cymorth Dewisol

Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi cadarnhau y bydd y gyllideb ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn cynyddu i £8.7 miliwn ar gyfer 2018/19; mae hyn yn £1 miliwn ychwanegol y flwyddyn.

Effaith:

Er y cyllid ychwanegol, yn hanesyddol cafodd y Gronfa Cymorth Dewisol ei thanddefnyddio i ran helaeth felly byddai CHC yn disgwyl i gael y budd mwyaf o'r cyllid hwn ei bod yn bwysig fod mwy o ymchwil i pam a sut y cafodd ei danddefnyddio'n flaenorol. Gobeithir y bydd y cyllid ychwanegol hwn ar gyfer argyfyngau yn helpu i liniaru peth o'r effaith negyddol a achosir gan ymestyn credyd cynhwysol, gweithio i atal pobl rhag mynd i ôl-ddyled rhent ac efallai orffen yn ddigartref.